# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**5/5/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Llinos Edwards (Cadeirydd), Lis Puw (Is Gadeirydd), Alwyn Roberts, Beryl Griffiths, Rhodri Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Huw Roberts, Euros Roberts ac Arwel Ll Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cynghorydd Sir) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3331 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Llinos Edwards.

**3332 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Alwyn Jones.

**3333 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd ddatganiad o fuddiant.

**3334 Cofnodion Cyfarfod Ebrill 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3335 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Gan na dderbyniwyd ymateb pellach gan Grŵp Cynefin fe gytunwyd i dynnu'r mater oddi ar agenda'r cyngor hyd nes y ceir ymateb pellach.

ii. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Adroddwyd fod y Cyng Alwyn Jones a'r Clerc wedi cyfarfod y pensaer Rhys Davies ar Ebrill 10fed i drafod y cynllun, a bod Rhys wedi cytuno i ddarparu cynllun safle a fyddai'n hwyluso cofrestriad y tir gyda'r Gofrestrfa Tir.

iii. Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned: Derbyniwyd gwybodaeth bellach am y gronfa, ac fe gytunwyd i flaenoriaethu offer ieuenctid i Weithdy'r Saer, ac i gyflwyno cais i'r gronfa am gyllid i brynu offer.

iv. Fflatiau Maes y Pandy: Derbyniwyd ymateb gan Adra yn cynnig dod i gyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r cyngor i drafod y sefyllfa. Cytunwyd i'r cadeirydd, y clerc, aelod lleol Cyngor Gwynedd a'r Cyng Arwel Jones i gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod yma. Nodwyd hefyd fod y mater wedi ei drafod yng nghyfarfod cynghorau Penllyn gyda'r Heddlu yn y Bala ar Ebrill 30ain. Nodwyd fod llawer o gwestiynau yn codi gan drigolion lleol.

v. Fforwm Adfywio'r Bala a Phenllyn: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o'r fforwm a gynhaliwyd ar Ebrill 29ain, pryd y cafwyd cyfle i sefydliadau'r ardal i roi diweddariad ar eu gwasanaethau a'u datblygiadau, ac y cafwyd diweddariad gan swyddogion Cyngor Gwynedd ar gronfeydd cymunedol perthnasol i'r ardal.

vi. Cyfarfod yr Heddlu: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd gyda'r heddlu ar Ebrill 30ain gyda chynrychiolwyr o gynghorau cymuned a thref ardal Penllyn. Adroddwyd fod yr heddlu wedi rhannu eu blaenoriaethau, sef delio â phroblemau cyffuriau, ymddygiad gwrth gymdeithasol a goryrru. Cafwyd trafodaeth hefyd ar broblemau parcio ger Llyn Tegid ar benwythnosau prysur yn yr haf, ac ar yr angen am gamerâu CCTV yn y Bala i hwyluso gwaith yr heddlu.

vii. Hyfforddiant Lleol Un Llais Cymru: Derbyniwyd rhai dyddiadau i gynnal sesiwn hyfforddiant lleol. Cytunwyd y byddai'n fwy addas i gynnal sesiwn yn nhymor yr hydref, ac fe ofynnwyd 'r clerc gael amlinelliad o gynnwys y cwrs.

viii. Llinellau melyn y pentref: Derbyniwyd diweddariad gan Gyngor Gwynedd, oedd yn nodi y byddai'r cynllun i ddiweddaru llinellau melyn y pentref yn cael ei ddatblygu ar y cyd â phentrefi eraill ym Meirionnydd.

**3336 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd:

- Ei fod wedi cyfarfod swyddogion Gwynedd i drafod y posibilrwydd i Gyngor Gwynedd fabwysiadau ffordd Frongain (rhwng Glynllifon a Phen Draw). Nodwyd fod hwn yn bosibilrwydd oherwydd fod wyneb y ffordd wedi ei adnewyddu yn ddiweddar, fod goleuadau stryd newydd yn eu lle, a bod y ffordd yn cael ei defnyddio fel mynediad i'r llai abl at y Cae Pêl-droed.
- Fod y cwlfert ger Rhydybod wedi ei glirio.
- Fod y twll yn y ffordd ger croesffordd Penantlliw wedi ei atgyweirio.
- Fod bwriad i wneud gwaith ar ffordd Cwm Cynllwyd dros yr haf.
- Fod cyflwr palmentydd y pentref yn cael ei asesu.
- Cafwyd trafodaeth ar gyflwr rampiau'r pentref, ac fe gytunwyd fod angen eu trwsio neu eu gwaredu.

**3337 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. **Pwyllgor Datblygu**:

a) Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn - Adroddwyd fod rhai o bolion enwau taith Cwm Cynllwyd wedi eu gosod, a bod trefniadau yn eu lle i osod polion teithiau Peniel a Phenantlliw.

b) Prosiect Enwau Lleoedd: Adroddwyd fod prisiau wedi eu derbyn i baratoi murlun i'w osod mewn man amlwg yn y Neuadd Bentref, ac y bydd y pwyllgor yn ystyried y cynigion yn fuan.

2. **Pwyllgor Mynwentydd:** Adroddwyd fod y gwaith o dorri gwair y mynwentydd am 2026 wedi cychwyn.
3. **Pwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod y gwaith o atgyweirio Porth y Fynwent Newydd ar y Gweill, y gwaith atgyweirio ar loches bws y Lôn wedi ei gwblhau, a gwaith ar y gweill i baentio meiciau'r Gilfach Goffa. Nodwyd fod angen chwynnu ger Pwmp y Llan a'r Gilfach Goffa.
4. **Pwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y gwaith ar y goedlan ger y fynwent yn cychwyn ar Fai 8fed, a bod y pwyllgor hefyd yn trafod harddu'r pentref gyda blodau.
5. **Pwyllgor Cyllid:** Nodwyd y bydd angen cyfarfod yn dilyn paratoi cyfrifon drafft i'r cyngor am 2025/2026, hyn fel rhan o broses archwilio cyfrifon y cyngor.

**3338 Materion Ariannol:**
Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Anfoneb cytundeb glanhau y toiledau.

- Anfoneb nwyddau glanhau y toiledau.
- Anfoneb costau atgyweirio hysbysfwrdd ger Pont Llan.
- Anfoneb torri gwair mynwentydd.
- Anfoneb yswiriant y cyngor: £671.57
- Anfoneb Archwilio Cymru am archwilio cyfrifon 2022/2023.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mawrth yn £83.72.
Nodwyd derbyn 50% o braesept y cyngor am 2026/2027.
Cytunwyd i godi ffi glanhau'r toiledau cyhoeddus ar raddfa chwyddiant am 2026/2027.
Adroddwyd fod Hawliad TAW'r cyngor am y flwyddyn 2025/2026 wedi ei gyflwyno.
Cyflwynwyd adroddiad ariannol drafft am y flwyddyn 2025/2026, ac fe gytunwyd i benodi Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol i'r cyngor.

3339 **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter wrthi'n atgyweirio'r wal rhwng y maes parcio a mynedfa'r Eagles, yn cynnal cyfarfodydd misol gyda thenant newydd yr Eagles, a bod yr Uned Gwefru Cerbydau yn barod i'w chomisiynu. Nodwyd fod recriwtio staff yn parhau yn her fawr i rediad yr Eagles.

3340 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni yn gwneud ymchwil i ddefnydd newydd posibl o Neuadd Buddug, ac hefyd yn parhau i ddatblygu gwasanaeth y car cymunedol yn yr ardal.

3341 **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

3342 **Gohebiaeth:**

i) Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa ac fe nodwyd fod y wybodaeth wedi ei anfon ymlaen i drefnwyr digwyddiadau yn lleol.
ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd ffordd Penantlliw bach yn cau am gyfnod er mwyn cwblhau gwaith atgyweirio hanfodol.
iii) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am Cynllun Datblygu Lleol, a nodwyd mai dyma'r cyfle olaf i argymell safleoedd adeiladau i'w cynnwys o fewn ffin ddatblygu'r pentref.
iv) Biniau'r Pandy: Derbyniwyd llythyr gan un o breswylwyr y Pandy yn tynnu sylw at finiau sbwriel yn cael eu gosod yn flêr ar ochr y ffordd. Cytunwyd i drafod y mater gyda Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd.

3343 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd:

i) Fod angen ystyried bin baw cŵn ger Llwybr Cei.
ii) Fod cyflwr y polion coch a gwyn ar ymyl ffordd Bwlch y Groes yn beryglus.

3344 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Nos Fawrth 2/6/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.